

Adolygiad o'r Weithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion yn erbyn Aelodau o'r Senedd

Gorffennaf 2022

Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ("y Pwyllgor") sy'n gyfrifol am sefydlu, a gosod gerbron y Senedd, weithdrefnau ar gyfer ymchwilio i gwynion o dan Reol Sefydlog 22.2(i). Cytunodd y Pwyllgor i drafod y weithdrefn bresennol, a thrafod a oedd yn parhau i ateb y gofyn fel ei ddarn sylweddol cyntaf o waith yn y Chweched Senedd.



1. Rhagair y Cadeirydd

Fel gwleidyddion etholedig, mae gennym gyfrifoldeb i sicrhau ein bod yn gosod y safonau ymddygiad uchaf. Mae'r Weithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion yn erbyn Aelodau o'r Senedd yn rheoleiddio'r broses ar gyfer gwneud cwynion yn erbyn yr Aelodau, ymchwilio iddynt a phenderfynu arnynt, ac mae'n arf allweddol wrth osod disgwyliadau ar gyfer y ffordd y dylai'r Aelodau ymddwyn.

Wrth adolygu'r Weithdrefn yn sylweddol am y tro cyntaf ers ei chyflwyno, mae'r Pwyllgor wedi ymdrechu i'w gwneud yn gliriach ac yn fwy hygyrch i'r cyhoedd. I'r perwyl hwnnw, mae canllaw esboniadol mewn iaith hygyrch a hawdd ei deall wedi'i lunio i gyd-fynd â'r Weithdrefn. Mae hyn ar ffurf dogfen camau allweddol a siart lif.

Mae'r Pwyllgor hefyd wedi llunio canllawiau mwy technegol ar weithrediad a chymhwysiad y Weithdrefn i helpu pobl i'w deall.

Mae'r Pwyllgor wedi dileu'r ddarpariaeth apelio yn y Weithdrefn drwy benderfyniad mwyafrif. Ymdrinnir â'r holl gwynion gan y Comisiynydd a chânt eu trafod gan y Pwyllgor, gyda'r adroddiad terfynol yn cael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn. Am fod gan yr Aelod sy'n destun cwyn yr hawl i fynd i gyfarfod perthnasol y Pwyllgor wyneb yn wyneb, roeddem o'r farn bod digon o gamau ar gyfer mewnbwn a her. At hynny Hefyd gwnaethom gryfhau cam gwrandawriad llafar y Weithdrefn fel ei bod yn gliriach mai dyma gyfle'r Aelod i godi materion anghydfod ffeithiol neu bryder gweithdrefnol mewn perthynas ag ymchwiliad ac adroddiad y Comisiynydd. Hefyd, caiff y Pwyllgor gyfeirio materion a godir bryd hyn yn ôl at y Comisiynydd i'w trafod ymhellach.

Er mwyn sicrhau bod cof pobl am yr hyn a ddigwyddodd yn fyw o hyd a bod tystiolaeth ar gael yn rhwydd, mae'r Pwyllgor wedi pennu chwe mis fel yr amserlen ar gyfer derbynioldeb cwynion. Fodd bynnag, hoffwn roi sicrwydd y bydd y Comisiynydd yn trafod cwynion yn ymwneud ag achosion y tu allan i'r amserlen hon pan fo achos da dros oedi.

Hoffwn ddiolch i bawb a gyfrannodd i'r ymchwiliad hwn am roi o'i amser i roi tystiolaeth werthfawr i ni, a sicrhau y bu modd i ni wneud i'r Weithdrefn ateb y gofyn.

Vikki Howells AS

Cadeirydd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

2. Casgliadau

Casgliad 1. Mae canllaw byr wedi'i lunio i gyd-fynd â'r weithdrefn ac mae rhagor o ganllawiau wedi'u llunio i esbonio agweddau ar y weithdrefn megis yr hyn sy'n gyfystyr ag 'achos da' o ran gwneud cwyn y tu allan i'r terfyn amser chwe mis.	9
Casgliad 2. Bydd adroddiadau sy'n canfod na thorwyd y Cod yn parhau i gael eu cyhoeddi.....	9
Casgliad 3. Mae diffiniadau amrywiol a phwyntiau technegol a godwyd yn yr ymgynghoriad yn cael eu hychwanegu at y Weithdrefn.....	9
Casgliad 4. Ychwanegir hawl i ymateb ar gyfer unigolion a grybwyllir mewn sylwadau a wneir i'r Pwyllgor.....	9
Casgliad 5. Bydd terfyn chwe mis ar gwynion, oni bai bod y Comisiynydd yn fodlon bod achos da dros yr oedi.	11
Casgliad 6. Dylid ei gwneud yn ofynnol i'r achwynydd ddatgan sut y credir bod yr ymddygiad sy'n destun cwyn yn torri'r Cod.....	12
Casgliad 7. Bydd cyfres o gerrig milltir ar gyfer hysbysu achwynwyr yn rhan o'r Weithdrefn a bydd yr Aelod sy'n destun cwyn yn cael yr un wybodaeth.....	12
Casgliad 8. Gall y Comisiynydd ymdrin â chwynion ar yr un mater ar sail grŵp, gan fwrw ymlaen â phrif gŵyn a phob cwyn debyg arall yn cael ei hatal mewn gwirionedd, gyda'r achwynwyr yn cael eu hysbysu am yr hynt os ydynt yn gwneud cais am hynny.	13
Casgliad 9. Mae gan y Comisiynydd y disgrisiwn i wrthod cwyn cyn dod i gasgliad terfynol.....	14
Casgliad 10. Mae gan y Pwyllgor Safonau Ymddygyaid hawl i adolygiad pe byddai'r Comisiynydd yn gwrthod cwyn ar unrhyw un o'r seiliau hyn.	14
Casgliad 11. Mae geiriad y broses gywiro gynnar wedi'i newid i'w gwneud yn gliriach.	15
Casgliad 12. Nid yw'r Weithdrefn yn cynnwys proses apelio mwyach.....	16
Casgliad 13. Mae gan y Pwyllgor y disgrisiwn i olygu neu grynhoi adroddiadau'r Comisiynydd.	16

Casgliad 14. Caiff yr Aelod dan sylw ddewis a yw ei enw'n cael ei olygu ai peidio mewn adroddiad sy'n canfod na thorwyd y Cod.....16

3. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad yn amlinellu sylwadau ar y Weithdrefn yn ei chyfanrwydd, yn ogystal â sylwadau technegol penodol, cyn mynd ymlaen i ystyried pob maes o'r Weithdrefn yn ei dro, fel y nodir yn yr ymgynghoriad.

Mae pob adran yn nodi'r ymatebion i'r ymgynghoriad, trafodaeth y Pwyllgor o'r rhain, a chasgliadau'r Pwyllgor. Lle y bo'n briodol, cynhwysir tystiolaeth lafar ychwanegol gan y Comisiynydd Safonau Annibynnol ("y Comisiynydd") ac ymateb y Pwyllgor i hyn.

Cefndir

- 1.** Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am drafod materion sy'n ymwneud ag ymddygiad Aelodau o'r Senedd ("Aelodau").
- 2.** Mae swyddogaethau'r Pwyllgor yn cynnwys argymhell i'r Senedd gymeradwyo Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau o'r Senedd ("y Cod") a'r weithdrefn sy'n cyd-fynd ag ef ar gyfer rheoleiddio'r broses o wneud cwynion yn erbyn Aelodau eu bod wedi torri'r Cod, ymchwilio iddynt a phenderfynu arnynt ("y Weithdrefn").
- 3.** Mae'r Cod yn nodi'r safonau ymddygiad a ddisgwylir gan Aelodau. Mae ganddo awdurdod statudol o dan y ddeddfwriaeth a sefydlodd y Comisiynydd Safonau annibynnol. Mae cwynion bod Aelodau wedi torri'r Cod yn cael eu gwneud i'r Comisiynydd sy'n penderfynu pryd a sut i gynnal ymchwiliad ac adrodd ar y canlyniad, yn amodol ar reolau gweithdrefnol a bennir gan y Senedd.
- 4.** Mae'r Weithdrefn yn nodi sut y bydd y Comisiynydd yn cael cwynion o'r fath ac yn eu hystyried, ac yn adrodd i'r Pwyllgor os ystyrir bod cwyn yn dderbyniol a bod y Cod wedi'i dorri. Mae'r Weithdrefn hefyd yn nodi sut y bydd y Pwyllgor wedyn yn ymdrin â chwynion o'r fath.
- 5.** Yn ystod y Bumed Senedd, cynhaliwyd adolygiad cynhwysfawr o'r Cod a chymeradwywyd Cod newydd i ddod i rym o ddechrau'r Chweched Senedd. I ategu hyn, cytunodd y Pwyllgor mai ei ddarn cyntaf o waith fyddai adolygu'r Weithdrefn fel yr argymhellwyd yn adroddiad gwaddol Pwyllgor Safonau Ymddygiad y Bumed Senedd.

- 6.** Cyhoeddodd y Pwyllgor weithdrefn ddrafft ar gyfer ymgynghoriad. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 19 Ionawr ac 21 Chwefror 2022. Cafodd y Pwyllgor 11 o ymatebion, a drafododd yn ei gyfarfod ar 28 Mawrth 2022. Ceir rhestr lawn o'r ymatebwyr yn Atodiad B ac mae'r gyfres lawn o ymatebion i'r ymgynghoriad i'w gweld ar dudalennau gwe'r Pwyllgor.
- 7.** Aeth y Comisiynydd i sesiwn dystiolaeth lafar ar 26 Ebrill 2022. Nodir y sesiwn hon yn Atodiad A. Mynegodd y Comisiynydd ei farn am rai materion y tynnwyd sylw atynt yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, yn ogystal â thynnu sylw at rai materion eraill.
- 8.** Cyfarfu'r Pwyllgor eto ar 6 ac 28 Mehefin, pan drafododd weithdrefn ddiwygiedig yn sgil y penderfyniadau a wnaed.
- 9.** Gosodwyd y Weithdrefn derfynol ar 6 Gorffennaf.

4. Y weithdrefn ddiwygiedig

10. Lluniodd y Pwyllgor y weithdrefn ddrafft ar gyfer ymgynghori yn seiliedig ar brofiadau o'r ffordd yr oedd y weithdrefn yn gweithredu yn y Bumed Senedd, a oedd â nifer ddigynsail o achosion. Hefyd, trafododd y Pwyllgor ddatblygiadau mewn deddfwrfeydd eraill i nodi meysydd o'r weithdrefn y gall fod angen eu newid.

Pwyntiau cyffredinol ar y Weithdrefn

11. Gwnaed nifer o bwyntiau cyffredinol mewn ymateb i'r ymgynghoriad:

12. Awgrymodd Undeb FDA Cymru fod yn 'rhaid i'r Senedd weithredu proses...gwbl annibynnol ar gyfer ymdrin â chwynion yn ymwneud â bwlio, aflonyddu ac aflonyddu rhywiol'.

13. Galwodd Plaid Cymru am fwy o gymorth a diogelwch gan Adnoddau Dynol i aelodau staff sy'n gweithio i Aelodau a bydd yn croesawu rhagor o drafodaeth gan y Pwyllgor a Chomisiwn y Senedd yn ei gyfanrwydd ar y mater hwn.

14. Awgrymodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru y gellid cryfhau'r weithdrefn pe bai'r Pwyllgor yn llunio ac yn mabwysiadu rhyw fath o brawf budd y cyhoedd i benderfynu pa gwynion y dylai'r Comisiynydd ymchwilio iddynt, ac yn nodi rhestr o ffactorau perthnasol.

Trafodaeth gan y Pwyllgor

15. Trafododd y Pwyllgor y pwyntiau ehangach hyn. Roedd y Pwyllgor o'r farn bod y broses bresennol fel yr oedd, gyda Chomisiynydd Safonau annibynnol a Phwyllgor Safonau Ymddygiad, yn gweithio'n dda.

16. Tynnodd y Pwyllgor sylw'r Prif Weithredwr at yr angen am fwy o gymorth Adnoddau Dynol i staff cymorth, ac ymrwymodd y Prif Weithredwr i godi'r pryderon fel rhan o'r adolygiad parhaus o'r polisi Urddas a Pharch.

17. Trafododd y Pwyllgor y syniad o ran prawf budd y cyhoedd â'r Comisiynydd pan glywodd dystiolaeth ganddo. Barn y Comisiynydd oedd bod y meini prawf presennol yn glir iawn ac yn ffeithiol, ond y byddai angen penderfyniad goddrychol ar gyfer prawf budd y cyhoedd. Fodd bynnag, mae prawf budd y cyhoedd eisoes yn y Weithdrefn pan benderfynir bod y gŵyn yn dderbyniol. Cytunodd y Pwyllgor mai hwn oedd y lle iawn ar gyfer prawf budd y cyhoedd.

Cynllun a chynnwys y Weithdrefn

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnig canllaw esboniadol ar wahân i'r broses gwyno, i gyd-fynd â'r rheolau gweithdrefnol ffurfiol.

Hefyd, roedd yr ymgynghoriad yn cynnig adran ddehongli i'w gwneud yn haws defnyddio'r weithdrefn.

18. Roedd yr ymatebwyr yn cytuno'n gyffredinol â'r cysyniad o gael canllaw esboniadol i gyd-fynd â'r weithdrefn, a phwysleisiodd nifer fod angen i'r canllaw fod mewn iaith hygyrch a hawdd ei deall. Awgrymodd un ymatebwr ei bod yn bwysig bod yn glir a yw'r canllawiau'n ddangosol yn unig neu, yn hytrach, a fwriedir iddynt fod yn bendant ynghylch sut i ddeall y weithdrefn.

19. Roedd nifer o ymatebion eraill i'r ymgynghoriad a drafododd y Pwyllgor, gan gynnwys:

- esbonio'r term 'cyfrinachedd' at ddibenion y Cod Ymddygiad;
- dylid diwygio adran 8.19, sy'n ei gwneud yn ofynnol i adroddiadau sy'n canfod na thorwyd y Cod fod yn ddienw oni bai bod yr Aelod yn gofyn fel arall, i bob parti gytuno i'r adroddiad fod yn ddienw;
- ni ddylid cyhoeddi adroddiad o gwbl os yw'n canfod na thorwyd y Cod;
- nid yw'n briodol i'r Llywydd allu gwneud cwynion ac yna parhau i fod â rôl yn y Weithdrefn.

Trafodaeth gan y Pwyllgor

20. Cytunodd y Pwyllgor y dylid cael canllaw esboniadol ochr yn ochr â'r weithdrefn, mewn iaith hygyrch a hawdd ei deall a fyddai ar ffurf dogfen camau allweddol a siart lif yn dangos y weithdrefn.

21. Hefyd, cytunodd y Pwyllgor i gyhoeddi canllawiau mwy technegol ar rai rhannau o'r Weithdrefn, yn unol â'r ddarpariaeth sy'n caniatáu i'r Pwyllgor gyhoeddi canllawiau ar weithrediad a chymhwysiad y Weithdrefn o bryd i'w gilydd. Nid yw'r canllawiau hyn yn rhan o'r Weithdrefn ond cânt eu cyhoeddi i helpu i'w deall.

22. Mae'r Pwyllgor wedi ychwanegu'r diffiniad a ganlyn o ystyr 'cyfrinachol':

ystyr "cyfrinachol" yw peidio â rhannu neu drafod materion sy'n ymwneud â chwyn â phobl eraill heb ganiatâd penodol, naill ai gan y Comisiynydd neu'r Pwyllgor.

23. Trafododd y Pwyllgor y materion sy'n ymwneud ag adroddiadau sy'n canfod na thorrwyd y Cod, yn enwedig a ddylent fod yn ddiennw ac a ddylid eu cyhoeddi. Penderfynodd y Pwyllgor y dylai Aelod gael yr hawl i ofyn i adroddiad o'r fath gynnwys ei enw ond, fel arall, y dylai fod yn ddiennw. Hefyd, daeth y Pwyllgor i'r casgliad y dylid cyhoeddi adroddiadau sy'n canfod na thorrwyd y Cod, er budd tryloywder a chynnal cofnod cyhoeddus o benderfyniadau. Gofynnodd Natasha Asghar iddo gael ei nodi bod ganddi rai pryderon ynghylch cyhoeddi adroddiadau sy'n canfod na thorrwyd y Cod.

24. Yn ogystal â'r pwyntiau a drafodwyd uchod, rhoddodd y Comisiynydd ragor o bwyntiau technegol yn ei dystiolaeth lafar, a dderbyniodd y Pwyllgor yn gyffredinol. Roedd y rhain yn cynnwys pwyntiau o eglurhad ynghylch pwy sy'n gallu gwneud cwyn; ychwanegu darpariaeth bod y Weithdrefn newydd yn gymwys o ddyddiad penodol; cynnwys yr ymadrodd 'data personol' yn hytrach na 'gwybodaeth gyfrinachol' a chyfeiriad at hysbysiad preifatrwydd y Comisiynydd; diffinio 'cyfnod etholiadol' a dileu cyfeiriadau sy'n hunanamlwg.

25. Hefyd, cytunodd y Pwyllgor i ychwanegu hawl i ymateb i unigolion a grybwyllir mewn sylwadau i'r Pwyllgor, mewn ymateb i'r mater a godir gan y Comisiynydd mewn tystiolaeth lafar.

Casgliad 1. Mae canllaw byr wedi'i lunio i gyd-fynd â'r weithdrefn ac mae rhagor o ganllawiau wedi'u llunio i esbonio agweddau ar y weithdrefn megis yr hyn sy'n gyfystyr ag 'achos da' o ran gwneud cwyn y tu allan i'r terfyn amser chwe mis.

Casgliad 2. Bydd adroddiadau sy'n canfod na thorrwyd y Cod yn parhau i gael eu cyhoeddi.

Casgliad 3. Mae diffiniadau amrywiol a phwyntiau technegol a godwyd yn yr ymgynghoriad yn cael eu hychwanegu at y Weithdrefn.

Casgliad 4. Ychwanegir hawl i ymateb ar gyfer unigolion a grybwyllir mewn sylwadau a wneir i'r Pwyllgor.

Y meini prawf derbynioldeb ar gyfer cwynion

Gofynnodd yr ymgynghoriad am farn am gynnwys y meini prawf a ganlyn y mae angen eu bodloni er mwyn i'r Comisiynydd ystyried cwyn:

bod yn ysgrifenedig;

nodi pwy yw'r person sy'n cwyno;

ymwneud ag ymddygiad Aelod y nodir pwy ydyw;

cael ei gwneud o fewn cyfnod penodedig i'r dyddiad y daeth yr achwynydd yn ymwybodol o'r ymddygiad;

cael digon o sylwedd i gyfiawnhau ymchwilio ymhellach (h.y. mae digon o dystiolaeth i awgrymu bod yr ymddygiad dan sylw wedi digwydd a, phe bai hynny'n cael ei brofi, gallai olygu na chydymffurfiwyd ag unrhyw un o'r materion yn Rheol Sefydlog 22.2(i)).

26. Ni chafwyd sylwadau penodol ar y maes hwn.

Yr amserlen ar gyfer derbynioldeb cwynion

Gofynnodd yr ymgynghoriad y cwestiynau a ganlyn i'r ymatebwyr ynghylch yr amserlen ar gyfer cwynion:

Pa derfyn amser, os o gwbl, fyddai'n deg ac yn briodol yn eich barn chi i ddiogelu hawliau'r achwynydd a'r Aelod sy'n destun cwyn?

Os cedwir terfyn amser, a oes gennych farn am y canllawiau sydd wedi'u cynnwys uchod i helpu i esbonio'r hyn a allai fod yn achos da dros yr oedi i wneud cwynion y tu allan i'r amser penodedig?

27. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno y dylid cael terfyn amser ar gyfer cwynion.

28. Nododd pum ymatebwr y dylai hyn fod yn 6 mis, nododd un y dylai fod yn 12 mis a nododd un y dylai fod nes i'r Aelod sy'n destun cwyn beidio â bod yn Aelod o'r Senedd. Ni nododd un ymatebwr derfyn amser (ond cytunodd y dylid cael un) ac nid oedd un ymatebwr yn meddwl y dylid cael terfyn o gwbl.

29. Awgrymodd ymatebwyr ragor o ychwanegiadau at y rhestr o resymau dros oedi cyn cyflwyno cwyn, fel a ganlyn:

- dyletswyddau gofalu;
- cyfnod mamolaeth;
- absenoldeb rhiant estynedig;
- seibiant gyrfa.

30. Hefyd, cododd dau ymatebwr y pwynt na ddylai amserlen fod yn gymwys i weithredoedd sy'n parhau i fynd rhagddynt, megis bwlio ac aflonyddu.

31. Hefyd, awgrymodd un ymatebwr, pan gyflwynir y weithdrefn yn gyntaf, y dylid cael cyfnod cyfyngedig i aelodau staff gyflwyno cwynion hanesyddol i ymchwilio iddynt, ac y dylai'r amserlen ymwneud â chodi'r gŵyn yn unig, nid penderfynu arni.

Trafodaeth gan y Pwyllgor

32. Cytunodd y Pwyllgor y dylid cael terfyn chwe mis ar gwynion, oni bai bod y Comisiynydd yn fodlon bod achos da dros yr oedi. Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r cymal cyffredinol hwn yn fwy defnyddiol na rhestr o resymau penodol nad yw'n rhestr gynhwysfawr. Hefyd, cytunodd y Pwyllgor y byddai'n ddefnyddiol nodi, mewn canllawiau, ragor o wybodaeth am yr hyn y gall achos da ei gynnwys, gan nodi'n glir y byddai pob achos yn seiliedig ar yr amgylchiadau ar y pryd.

33. Mae'r weithdrefn yn cynnwys trefniad pontio sy'n estyn y terfyn amser chwe mis am y chwe mis cyntaf pan ddaw'r weithdrefn i rym – er mwyn sicrhau tegwch yn y broses.

Casgliad 5. Bydd terfyn chwe mis ar gwynion, oni bai bod y Comisiynydd yn fodlon bod achos da dros yr oedi.

Gwybodaeth a geir mewn cwyn

Cynigiodd y Pwyllgor y dylid ei gwneud yn ofynnol i'r achwynydd ddatgan sut y credir bod yr ymddygiad sy'n destun cwyn yn torri'r Cod.

34. Cytunodd dau ymatebwr ei bod yn ddymunol annog achwynwyr i gyfeirio at ba adran o'r Cod y mae Aelod wedi'i thorri fel rhan o'u cwyn i'r Comisiynydd.

35. Roedd dau ymatebwr yn pryderu y gallai'r broses gwyno fod yn llai hygyrch yn sgil ei gwneud yn ofynnol i'r achwynydd nodi sut y credir bod yr ymddygiad sy'n destun cwyn yn torri'r Cod, ac awgrymodd un o'r rhain y dylai'r Comisiynydd hefyd ymdrechu i gysylltu ag achwynwyr

nad ydynt yn cyfeirio at y Cod yn gywir, i sicrhau bod hyn yn cael ei esbonio, ac y dylid rhoi unrhyw help angenrheidiol.

Trafodaeth gan y Pwyllgor

36. Cytunodd y Pwyllgor yn fras y dylid ei gwneud yn ofynnol i'r achwynydd ddatgan sut y credir bod yr ymddygiad sy'n destun cwyn yn torri'r Cod, ond roedd yn awyddus i hyn beidio â gwneud y broses yn llai hygyrch.

37. Cytunodd y Pwyllgor y dylai'r canllawiau sy'n cyd-fynd â'r weithdrefn nodi'n glir y byddai'r Comisiynydd yn cynnig cymorth yn y maes hwn, ac nad darpariaeth i faglu achwynwyr ydoedd ond, yn hytrach, mai'r nod yw cynyddu dealltwriaeth o gwynion.

Casgliad 6. Dylid ei gwneud yn ofynnol i'r achwynydd ddatgan sut y credir bod yr ymddygiad sy'n destun cwyn yn torri'r Cod.

Yr Achwynydd

Gofynnodd yr ymgynghoriad i ymatebwyr a oeddent yn cytuno â'r cerrig milltir posibl a ganlyn pan fo achwynydd, o bosibl, am gael ei hysbysu:

pan fo'r Pwyllgor yn cael yr adroddiad, ac arwydd o'r camau nesaf;

pan fo'r Pwyllgor wedi cwblhau ei drafodion;

cyn cyhoeddi'r adroddiad a'r ddadl yn y Cyfarfod Llawn.

38. Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r achwynydd am hynt y gŵyn ar ôl i adroddiad y Comisiynydd gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor. Mae un ymatebwr yn awgrymu y dylid rhoi'r un wybodaeth i'r Aelod sy'n destun y gŵyn. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr hefyd yn cytuno â'r cerrig milltir arfaethedig.

Trafodaeth gan y Pwyllgor

39. Cytunodd y Pwyllgor â'r cerrig milltir arfaethedig, ac y dylai'r Aelod sy'n destun cwyn gael yr un wybodaeth.

Casgliad 7. Bydd cyfres o gerrig milltir ar gyfer hysbysu achwynwyr yn rhan o'r Weithdrefn a bydd yr Aelod sy'n destun cwyn yn cael yr un wybodaeth.

Nodi prif achwynydd

Gofynnodd yr ymgynghoriad i'r ymatebwyr beth oedd eu barn am y Comisiynydd yn ymdrin â chwynion ar yr un mater ar sail grŵp, gan fwrw ymlaen â phrif gŵyn, a phob cwyn debyg arall yn cael ei hatal mewn gwirionedd, gyda'r achwynwyr yn cael eu hysbysu am yr hynt os ydynt yn gwneud cais am hynny.

40. Roedd cytundeb cyffredinol ynghylch y cynigion yn ymwneud â chwynion ar sail grŵp, er y nodwyd y canlynol:

- mae'n rhaid cymryd gofal i sicrhau bod "prif gŵyn" yn ymdrin yn briodol â'r holl bryderon a godwyd gan achwynwyr eraill yn y "grŵp";
- dylid ystyried yn ofalus sut y caiff hyn ei gyfleu yn y ffordd fwyaf effeithiol a chdir o'r cychwyn cyntaf.

41. Roedd un ymatebwr o'r farn y dylid hysbysu achwynwyr yn unigol, er mwyn osgoi camgyfleu neu gamliwio posibl. Roedd un ymatebwr eisiau mwy o wybodaeth am y fframwaith a'r meini prawf ar gyfer dewis 'prif' achosion a chadarnhau a yw cwynion/honiadau ac amgylchiadau 'prif' achosion yn gyson ag achosion eraill y 'grŵp', ac os felly, ym mha fodd y maent yn gyson.

Ymateb gan y Pwyllgor

42. Roedd y Pwyllgor yn pryderu bod yn rhaid i unrhyw brif gŵyn ymdrin â'r holl bryderon a godwyd gan aelodau eraill o'r grŵp, a chytunwyd i godi hyn gyda'r Comisiynydd.

43. Yn ei dystiolaeth, dywedodd y Comisiynydd fod cwynion gan bobl luosog fel arfer yn cael eu cydgysylltu mewn ffordd amlwg, neu, y byddai'n gwneud penderfyniad a ddylid eu trin fel grŵp.

Casgliad 8. Gall y Comisiynydd ymdrin â chwynion ar yr un mater ar sail grŵp, gan fwrw ymlaen â phrif gŵyn a phob cwyn debyg arall yn cael ei hatal mewn gwirionedd, gyda'r achwynwyr yn cael eu hysbysu am yr hynt os ydynt yn gwneud cais am hynny.

Dod â chwyn i ben a'r hawl i ofyn am adolygiad

Gofynnodd yr ymgynghoriad a ddylai fod gan y Comisiynydd y disgrisiwn i wrthod cwyn cyn dod i gasgliad terfynol.

Hefyd, gofynnodd yr ymgynghoriad a ddylai'r Pwyllgor gael yr hawl i adolygiad pe byddai'r Comisiynydd yn gwrthod cwyn ar unrhyw un o'r seiliau hyn.

44. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai fod gan y Comisiynydd y disgrisiwn i wrthod cwyn cyn dod i gasgliad terfynol, ac y dylai fod gan y Pwyllgor hawl i adolygiad. Hefyd, awgrymodd un ymatebwr y dylid rhannu esboniad o'r rhesymau dros wneud y penderfyniad hwn â'r Aelod dan sylw, os yw wedi cael gwybod erbyn y cam hwn.

45. Nid oedd un ymatebwr yn cytuno y dylai'r Pwyllgor gael hawl i adolygiad, ac roedd yn credu mai'r Comisiynydd ddylai wneud y penderfyniad terfynol.

46. Gwnaeth y Comisiynydd Safonau Moesegol mewn Bywyd Cyhoeddus yn yr Alban sylwadau manylach ar y rhesymau eu hunain.

Ymateb gan y Pwyllgor

47. Cytunodd y Pwyllgor i gynnwys yr hawl i adolygiad mewn perthynas â'r Comisiynydd yn penderfynu peidio â bwrw ymlaen â chwyn dderbyniol yn y weithdrefn, a chytunwyd y dylid defnyddio prawf budd y cyhoedd ar y cam hwn.

Casgliad 9. Mae gan y Comisiynydd y disgrisiwn i wrthod cwyn cyn dod i gasgliad terfynol.

Casgliad 10. Mae gan y Pwyllgor Safonau Ymddygyaid hawl i adolygiad pe byddai'r Comisiynydd yn gwrthod cwyn ar unrhyw un o'r seiliau hyn.

Y weithdrefn gywiro gynnar

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnig ailddatgan y weithdrefn gywiro gynnar yn gliriach, gan alluogi'r Aelodau i wneud ymddiheuriad, a fydd yn cael ei gyhoeddi ar dudalennau gwe'r Pwyllgor a datrys cwyn yn gynnar yn y broses.

48. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig am fwy o eglurder ar y broses gywiro gynnar. Nodwyd y pwyntiau a ganlyn:

- dylai cywiriad cynnar fod yn eithriadol;

- dylai fod yn ddarostyngedig i'r un prawf budd y cyhoedd â'r hyn sy'n cael ei gymhwyso i dynnu cwynion yn ôl;
- mae'n bwysig bod achwynwyr yn glir ynghylch i bwy y bydd testun y gŵyn yn ymddiheuro—boed y Pwyllgor neu'r achwynydd neu'r ddau;
- ni ddylai fod yn gymwys i faterion sy'n gysylltiedig â pholisïau Urddas yn y Gweithle neu Fwlio ac Aflonyddu;
- pe byddai'n arwain at ddatrysiad cynnar, dylai'r achwynydd gytuno.

Ymateb gan y Pwyllgor

49. Cytunodd y Pwyllgor y dylid datgan y broses gywiro gynnar yn gliriach.

Casgliad 11. Mae geiriad y broses gywiro gynnar wedi'i newid i'w gwneud yn gliriach.

Y broses apelio

Gofynnodd yr ymgynghoriad i'r ymatebwyr a ddylid dileu'r broses apelio bresennol ac, os na ddylai, ar ba ffurf y dylai proses apelio fod.

Hefyd, gofynnodd yr ymgynghoriad i ymatebwyr a ddylai'r rheolau ar gyfer y cam gwrandawriad llafar gynnwys darpariaeth ar gyfer cyfeirio'n ôl at y Comisiynydd.

50. Cytunodd pum ymatebwr y dylid dileu'r broses apelio bresennol, ac ni wnaeth un sylw ac eithrio i ddweud nad oedd proses apelio yn yr Alban. Gofynnodd un o'r ymatebwyr, a oedd yn cytuno y dylai'r Pwyllgor barhau i adolygu hyn, am ei effeithiolrwydd.

51. Nid oedd tri ymatebwr yn cytuno y dylai'r broses apelio gael ei dileu'n gyfan gwbl, a gwnaethant y sylwadau ychwanegol a ganlyn;

- bod y broses apelio bresennol yn rhy hir, ond y dylai unrhyw aelod sy'n destun ymchwiliad gael un cyfle olaf i gyflwyno unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth ychwanegol sy'n berthnasol i'w achos;
- mae'r broses bresennol yn ddryslyd ac yn anhryloyw, ac y dylid ei disodli gan Banel Arbenigol Annibynnol.

52. Roedd y rhai a ymatebodd iddo'n cytuno y dylai'r rheolau ar gyfer y cam gwrandawriad llafar gynnwys darpariaeth ar gyfer cyfeirio'n ôl at y Comisiynydd.

Ymateb gan y Pwyllgor

53. Cytunodd y Pwyllgor i ddileu'r broses apelio drwy benderfyniad mwyafrif. Nid oedd Andrew RT Davies, Aelod o'r Ceidwadwyr ar y pryd, yn cytuno y dylid dileu'r broses apelio.

Casgliad 12. Nid yw'r Weithdrefn yn cynnwys proses apelio mwyach.

Golygu adroddiad y Comisiynydd

Gofynnodd yr ymgynghoriad a oedd yr ymatebwyr yn cytuno y dylai'r Pwyllgor gael y disgrisiwn i olygu neu grynhoi adroddiadau'r Comisiynydd am resymau diogelu neu gyfrinachedd.

54. Roedd bron â bod yr holl ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig i ganiatáu disgrisiwn i'r Pwyllgor olygu neu grynhoi adroddiadau'r Comisiynydd am resymau diogelu neu gyfrinachedd, neu heb wneud sylw ar y cynnig. Gofynnodd un ymatebwr am feini prawf penodol pan fyddai rhesymau diogelu neu gyfrinachedd yn gymwys er mwyn cyhoeddi adroddiadau cryno neu wedi'u golygu.

55. Awgrymodd un ymatebwr, pe bai Aelod wedi'i gyhuddo'n gyhoeddus ac yn cyfiawnhau ei hun wedyn, y dylid cyhoeddi ei enw er mwyn atal niwed i'w enw da gan y cyfryngau.

Ymateb gan y Pwyllgor

56. Cytunodd y Pwyllgor y dylai fod ganddo'r disgrisiwn i olygu neu grynhoi adroddiadau'r Comisiynydd, a hefyd y dylai'r Aelod gael dewis a yw ei enw'n cael ei olygu mewn adroddiad sy'n canfod na thorrwyd y Cod, ond bod hyn yn gymwys i enw'r Aelod yn unig, nid gwybodaeth arall yn yr adroddiad.

Casgliad 13. Mae gan y Pwyllgor y disgrisiwn i olygu neu grynhoi adroddiadau'r Comisiynydd.

Casgliad 14. Caiff yr Aelod dan sylw ddewis a yw ei enw'n cael ei olygu ai peidio mewn adroddiad sy'n canfod na thorrwyd y Cod.

5. Atodiad A: Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tyst a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiad a nodir isod.

Dyddiad	Enw a sefydliad
26 Ebrill 2022	Douglas Bain, Comisiynydd Safonau Cymru

6. Atodiad B: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar gael ar wefan y Pwyllgor.

Cyfeirnod	Sefydliad
SOC 01	Natasha Asghar AS
SOC 02	Y Comisiynydd Safonau (Cymru)
SOC 03	Grŵp Llafur Cymru
SOC 04	FDA Cymru
SOC 05	Cadeirydd y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus
SOC 06	Y Comisiynydd Safonau Moesegol Dros Dro (yr Alban)
SOC 07	Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
SOC 08	Comisiynydd Safonau Cynulliad Gogledd Iwerddon
SOC 09	Materion Cyhoeddus Cymru
SOC 10	Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig
SOC 11	Grŵp Plaid Cymru